

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor, Nos Fawrth y fed o 12fed o Dachwedd 2013.

Yn bresennol oedd y Cyngorwyr Dafydd Glyn Owen (Cadair), Harry Wyn Owen, Sharon Wynne Jones – Talysarn; Elwyn Jones-Griffith, Ifan Glyn Jones, Iwan Lloyd Williams, Barry Bracegirdle – Penygroes; Eurig Wyn Evans – Nebo; Gwyndaf Roberts – Llanllyfni.

Cynllunio.

Derbyniwyd y ceisiadau canlynol ar gyfer sylwadau'r Cyngor.

*Tir Allt Doli, Penygroes – Ty deulawr ar wahan ynghyd a modurdy a gwaith cysylltiol. Roedd anghysondeb yn y cais, a byddwn yn dwyn sylw Cyngor Gwynedd fod y cais yn aneglur fel ag y mae o.

* Afon Ty Coch ac Afon Craig Las, Ffridd, Nantlle – cynllun trydan dwr arfaethedig.

Cymeradwyo

*Bro Silyn, Talysarn – creu 32 lle parcio mewn 7 ardal ar wahan. Cymeradwyo

*Tir ger Plas Coed Madog, Talysarn – Ty annedd newydd deulawr a modurdy domestig ar wahan. (Harry Wyn Owen yn datgan diddordeb, a ni gymrodd rhan yn y drafodaeth).

Cymeradwyo.

*Tomen lechi Dolbebi – symud deunydd o ddyddodion gweithio mwynau ynghyd a gwaith prosesu cysylltiol. Cymeradwyo ar y sail y dylai Cyngor Gwynedd gael strategaeth ar gyfer clirio tomenni llechi yn y Dyffryn.

*85 Ffordd Hyfrydle, Talysarn – estyniad unllawr cefn. Cymeradwyo.

*Cytiau Cae Ffatri, Penygroes – addasu adeiladu allanol i uned wyliau a gosod offer trin carthion. Cymeradwyo.

*Ty Mawr, Nantlle – fflw ar gefn ty ac addasiadau mewnol. Cymeradwyo.

Gohebiaeth.

Cyngor Gwynedd

*Ymatebion i gwynion: Efail y Berth – byddwn yn cysylltu efo Cyngor Gwynedd unwaith eto i holi beth yw'r diweddaraf ar yr arwyddion sydd i fod i gael eu gosod ar y tro;

Hen Lon Penygroes – byddwn yn ysgrifennu yn ol yn ffurfiol i Brifweithredwr Cyngor

*Gwynedd i bwysu ar y Cyngor i osod llinellau melyn ar y ffordd.

*Derbyniwyd llythyr gan Chris O'Mara yn cyflwyno ei hun fel y Rheolwr Clwstwr newydd.

*Derbyniwyd copi o Adroddiad Archwilio Llifogydd Pant y Celyn, Llanllyfni a Tan yr Allt, Llanllyfni.

*Llythyr parthed problemau baw cwn Dyffryn Nantlle. Byddwn yn trefnu i'r swyddog ddod i gyfarfod safle.

Arall

*Cronfa Natur Llywodraeth Cymru. Derbyniwyd gwybodaeth am gynllun grant, a byddwn yn cysylltu efo Mark Ballaam, Cyngor Gwynedd i rannu'r wybodaeth efo fo – efallai y byddai o fudd i'r prosiect yn Cae Catrin, Penygroes.

*Cafwyd ebost gan Craig ab Iago, yn pryderu am y prinder o feddygon Cymraeg. Barn y Cyngor oedd bod prinder meddygon yn gyffredinol. Mae prinder o Gymry yn dewis meddygaeth fel gyrfa, a'r costau yn aruthrol. Y Cyngor yn cydymdeimlo yn hollol a'r hyn yr oedd Craig yn ei ddweud, ac yn awgrymu y dylai'r Cynulliad gael rhaglen i ymweld ag ysgolion ac annog disgyblion i astudio meddyginiaeth.

*Copi llythyr Heddlu at drigolion Ger y Llan. Darllenwyd y llythyr gan y PCSO, a oedd yn gofyn i rieni gael gair efo'r plant am beryglon chwarae yn y lon.

Materion Pentrefi.

Gwelfor Llanllyfni – coed yn tyfu drosodd i'r ffordd – byddwn yn cysylltu eto efo Cyngor Gwynedd i'w hysbysu.

Nebo twll yn y lon ar ffordd Penchwarel ger ty Penchwarel – eto, byddwn yn cysylltu efo Cyngor Gwynedd.

Talysarn Tyfiant drosodd o'r cae chwarae I Ffordd yr Orsaf angen ei dorri. Draeniau wedi blocio yn Bro Silyn – dwr yn llifo i'r lon o'r cae gyferbyn i'r tai; Coed ar y llecyn gwyrdd (wrth droi yn Bro Silyn am Petris) yn tarfu ar weledd ac angen eu trimio yn ol.

Penygroes Byddwn yn holi Cyngor Gwynedd beth yw eu rhaglen glanhau'r pentref, a pha mor aml bydd y gwaith glanhau yn cael ei wneud. Ar hyn o bryd, mae chwyn yn tyfu wrth ochr tai ac ar balmentydd;

Cae tu cefn i Trem yr Wyddfa wedi tyfu'n fawr ac angen ei dorri;

Caniatawyd prynu set o oleuadau newydd i'r goeden fydd yn cael ei rhoi ger y Neuadd gan fod y rhai a oedd yno llynedd wedi eu difrodi.